

Pawb a'i farn

Anhafaleddau

- GARETH A wnewch chi esbonio wrthyf i beth oedd prif ddadl amddiffyniad eich cleient?
- MARIA Wel, doedd dim posib fod fy nghleient i adre' am hanner dydd ar y diwrnod dan sylw. Beth am edrych ar y ffeithiau.
- THOMAS Gwrthwynebiad!
- BARNWR Dyna ddigon, callia gyfreithiwr.
- MARIA Mae fy nghleient yn prosesu 2 uned yr awr. Pan gychwynnodd ei shiftt am 8 y bore, roedd 25 uned heb eu prosesu. Dechreuodd brosesu'r unedau hynny a'r unedau ddaeth yn ôl o'r 'stafell drwsio. Pan orffennodd ei shiftt, roedd 11 uned heb eu prosesu.
- GARETH Dyma wnaeth ddrysu rhai aelodau o'r rheithgor, ond dw i'n credu fy mod i'n deall.
- Dechrau gyda 25 uned. Pacio hyd at 2 uned yr awr, sy'n lleihau faint sydd ar ôl. Dy'n ni ddim yn gwybod sawl uned ddaeth yn ôl o'r ystafell drwsio ond mae'n rhaid bod y cyfanswm wedi ei leihau i lai nag 11.
- Mae mathemategwyr yn galw unrhyw beth sy'n sôn am 'lai na' neu 'mwy na' yn anhafaledd.
- THOMAS Gwrthwynebiad! Mae bod yn anhafal yn ddrwg i'n cymdeithas ni.
- BARNWR Ymlaen â ni.
- GARETH Diolch. Yn ôl â ni at yr anhafaledd mathemategol. Tynnwch 25 o'r ddwy ochr. Sylwch fod y minws yn perthyn i'r $2a$.
- Nawr, talwch sylw. Mae'n rhaid rhannu gyda -2 . Bydd hyn yn gwrthdroi'r anhafaledd.
- Roedd y rheithgor eisiau tystiolaeth o'r cam olaf.

Bitesize

- MARIA O, oedden. Dyma ble ry' ni. Mae $-2a$ yn llai na -14 .
Gallwn adio $2a$ i'r ddwy ochr ac adio 14 i'r ddwy ochr.
Nawr rhannwch gyda 2 ac fe gewch chi... [$7 < a$]. Mae'r
gosodiad yma'n dweud bod 7 yn llai nag a . Roedd ein
hateb blaenorol yn dangos fod a yn fwy na 7 .
- GARETH Mae'r ddau ddatganiad yn dweud yr un peth!
- MARIA Yn union. Felly fel y gwelir ar y llinell amser, gorffennodd
fy nghleient weithio dros saith awr ar ôl iddi gychwyn -
hynny yw ar ôl tri y prynhawn.
- THOMAS Gwrthwynebiad! Rydych chi'n drysu'r tyst.
- MARIA Tyst, pa dyst? Mae e wedi hen fynd! Cafodd yr achos ei
ddiddymu. Diolch i fathemateg, cafwyd cyfiawnder.